**Cofnodion o gyfarfod diweddaru Cyfarwyddwyr Hybu Cig Cymru (HCC) a gynhaliwyd am 9.30am trwy gyfrwng Microsoft Teams ddydd Iau 1 Chwefror 2024**

**Yn Bresennol:** Cath Smith (Cadeirydd)
Gareth Wynn Davies, John T Davies, Rhys Davies, Jack Evershed, Hugh Hesketh-Evans, Mike Humphreys, Prys Morgan, Emlyn Roberts, Caroline Sanger-Davies, Vicki Spencer-Francis

**Trwy Wahoddiad:** Maria Richards, Llywodraeth Cymru

**Y Swyddogion Gweithredol:** Heather Anstey-Myers (Prif Weithredwr Dros-dro)
Karen Davies (Ysgrifenyddiaeth)
Gareth Jones (Pennaeth Cyllid a Llywodraethiant Corfforaethol)
Rachael Madeley-Davies (Pennaeth Cynaliadwyedd a Pholisi'r Dyfodol)
Laura Pickup (Pennaeth Marchnata Strategol a Chysylltiadau)

1. **Croeso – Heather Anstey-Myers, Prif Weithredwr Dros-dro**

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd.

Yn benodol, croesawyd y Prif Weithredwr Dros-dro a'r Swyddog Cyfrifyddu, Heather Anstey-Myers, i'w cyfarfod cyntaf o ddiweddaru'r Bwrdd drwy Teams. Yna cafwyd cyflwyniadau gan y Bwrdd.

2. **Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Nodwyd ymddiheuriadau gan Aelod o'r Bwrdd, Gareth Wynn Davies, a'r Prif Weithredwr, Gwyn Howells, (a oedd ar seibiant salwch o hyd).

Nodwyd y byddai Mike Humphreys a Prys Morgan yn gorfod ymadael â'r cyfarfod yn gynnar; felly, gofynnodd y Cadeirydd am i Eitemau 5 a 6 gael sylw gyntaf a chytunodd y Bwrdd.

3 & 4. **Diweddariad Gweithgareddau a diweddariad o'r Farchnad**

Rhoddwyd diweddariad a ganlyn gan y Pennaeth Marchnata Strategol a Chysylltiadau

- Nodwyd bod Anne Dunn wedi dechrau yn ei swydd fel Arweinydd Cyfathrebu a Materion Allanol.
- Roedd Ymgyrch Cig Eidion Cymru bellach wedi dod i ben ac roedd yn cael ei werthuso'n fanwl.
- Byddai HCC yn bresennol mewn digwyddiadau gwasanaeth bwyd (dau yng Ngogledd Cymru / un yn Ne Cymru) mewn partneriaeth â dosbarthwyr gwasanaeth bwyd.

- Sioeau Masnach – byddai HCC yn bresennol mewn tair sioe fasnach ryngwladol:

  - Gulfood a digwyddiad ymylol yn y Llysgenhadaeth
  - Foodex, Tokyo
  - Y Gynhadledd Gig Flynyddol, Nashville – ar y cyd â'r Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth a dau gwmni prosesu bwyd sydd â mynediad i'r Unol Daleithiau.

Ymadawodd yr Aelod o'r Bwrdd, Mike Humphreys, â'r cyfarfod.

Rhoddodd y Pennaeth Cynaliadwyedd a Pholisi'r Dyfodol y diweddariad a ganlyn:

- Newyddion da oedd gallu adrodd fod cais HCC i ARFOR (menter ar y cyd rhwng Cynghorau Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Gwynedd ac Ynys Môn) am £100k wedi llwyddo. Byddai'r cynllun yn seiliedig ar ddatgarboneiddio cig eidion yng Ngwynedd, Ceredigion a Sir Gaerfyrddin a byddai'n rhedeg Ionawr – Rhagfyr 2024

- Cytunwyd i'r Arweinydd Polisi a Datblygu friffio'r Bwrdd ynghylch y prosiect yng nghyfarfod y Bwrdd ar 2 Mai 2024.

- Cafodd y Pennaeth Cynaliadwyedd a Pholisi'r Dyfodol a'r tîm eu llongyfarch gan y Cadeirydd am ganlyniad llwyddiannus y ceisiadau.

Ymgynghoriad Cynllun Ffermio Cynaliadwy

- Roedd drafft o ymateb HCC i'r ymgynghoriad mewn llaw a châi ei rannu â'r Bwrdd cyn y dyddiad cau ar 7 Mawrth 2024.

**Gweithredu: Pennaeth Cynaliadwyedd a Pholisi'r Dyfodol**

5. **<u>Diweddariad Cyllid</u>**

Rhoddodd y Pennaeth Cyllid a Llywodraethiant Corfforaethol ddiweddariad byr am sefyllfa cyllideb 2024 / 2025.

**Gweithredu: Pennaeth Cyllid a Llywodraethiant Corfforaethol**

6. **<u>I ystyried Cyfraddau Ardoll Cig Coch Cymru ar gyfer 2024 / 2025</u>**

Yn dilyn trafodaethau blaenorol a phapurau a gyflwynwyd yn y cyfarfodydd ar 8 Tachwedd 2023 ac 11 Ionawr 2024, teimlai'r Cadeirydd y dylid ceisio dod i benderfyniad ynghylch cynyddu'r Ardoll yn y cyfarfod heddiw.

Bu trafod ynghylch y cyfiawnhad dros y cynnydd a argymhellwyd.

Gofynnodd y Cadeirydd a oedd unrhyw wrthwynebiadau i argymhelliad y Swyddogion Gweithredol i gynyddu'r Ardoll; ni chafwyd unrhyw sylw.

Gofynnodd Maria Richards am fwy o wybodaeth gefndirol i'w chyflwyno i'r Gweinidog. Y Pennaeth Cynaliadwyedd a Pholisi'r Dyfodol i baratoi papur i nodi'r camau cyn gynted â phosibl, gan amlygu heriau HCC, ond hefyd ei ymagwedd rhagweithiol o ran hybu effeithlonrwydd a'i rannu gyda'r Bwrdd cyn anfon cynnig terfynol a chytunedig at y Gweinidog.

**Gweithredu: Pennaeth Cynaliadwyedd a Pholisi'r Dyfodol**

Ymadawodd yr Aelod o’r Bwrdd, Prys Morgan, â’r cyfarfod.

7. **<u>Statws TAW</u>**

Rhoddodd y Pennaeth Cyllid a Llywodraethiant Corfforaethol ddiweddariad o statws TAW HCC.

<u>Y Camau Nesaf</u>

Parhaodd trafodaethau yn gyson gyda’r tîm TAW a Threth, Llywodraeth Cymru a chynrychiolwyr o Gyllid a Thollau Ei Fawrhydi.

8. **<u>Unrhyw fater arall</u>**

9. **<u>Dyddiadau cyfarfodydd i ddod</u>**

Dydd Iau 7Mawrth 2024 – cyfarfod ffurfiol o Fwrdd HCC
Dydd Iau 4 Ebrill 2024 – Diweddariad Teams Bwrdd HCC